CYSYLLTIADAU GWEITHIO RHWNG CYNGHORWYR CYMUNED A'R CYNGHORYDD SIR LLEOL

Mehefin 2012

CYSYLLTIADAU GWEITHIO RHWNG CYNGHORWYR CYMUNED A'R CYNGHORYDD SIR LLEOL

CYFLWYNIAD

1. Bwriad y ddogfen hon yw pennu fframwaith ar gyfer cysylltiadau gweithio cadarnhaol a chynhyrchiol rhwng aelodau'r cynghorau tref a chymuned a'r cynghorydd sir lleol ar gyfer y ward etholiadol sy'n cydffinio ag ardal y cyngor cymuned. Weithiau efallai y bydd mwy nag un Cynghorydd Sir yn gwasanaethu'r ardal. Hefyd mae'n bosibl y bydd y Cynghorydd Sir lleol yn aelod o'r cyngor tref neu'r cyngor cymuned.

2. Beth bynnag y bo'r trefniadau, mae'n rhaid i'r holl aelodau ddeall, parchu, a gwerthfawrogi rolau'r cynghorydd cymuned a'r cynghorydd sir, a sylweddoli bod gan yr holl gynghorwyr ddiben cyffredin o ran gwasanaethu pobl eu cymunedau.

3. Mae'r ddogfen hon yn cymharu pwerau a dyletswyddau Cyngor Sir Caerfyrddin â'r rhai sydd gan Gynghorau Cymuned. Mae'n egluro rôl y Cynghorydd Sir lleol. Mae'n rhoi sylw i bwysigrwydd cyfathrebu da rhwng cynghorwyr cymuned a'r Cynghorydd Sir lleol. Mae'n awgrymu sut y gellir trefnu a chynnal cyfarfodydd cynghorau cymuned gan roi ystyriaeth i'r amcanion hyn.

PWERAU A ROLAU

4. Mae **Atodiad A** yn rhestru'r prif bwerau sydd ar gael i'r cynghorau cymuned. Caiff penderfyniadau eu gwneud gan y cyngor cymuned pan fydd yr holl aelodau'n dod ynghyd fel Cyngor llawn. Hefyd gall Pwyllgorau'r Cyngor wneud penderfyniadau, os cânt eu dirprwyo i'r pwyllgor hwnnw'n ysgrifenedig gan y Cyngor. Ni all cynghorwyr unigol wneud penderfyniadau. Gall y Clerc ond gwneud penderfyniadau os cânt eu dirprwyo iddo neu iddi yn ysgrifenedig gan y Cyngor.

5. Gallwch gael rhestr o'r prif wasanaethau a ddarperir gan Gyngor Sir Caerfyrddin ar wefan y Cyngor: www.sirgar.gov.uk. Mae manylion am y strwythur gwneud penderfyniadau wedi eu cynnwys yn Rhan 3 o Gyfansoddiad y Cyngor, sydd hefyd ar y wefan. Dengys y siart yn **Atodiad B** grynodeb o'r strwythur gwneud penderfyniadau. Mae'r holl gynghorwyr yn dod ynghyd i gwrdd fel Cyngor er mwyn cytuno ar y gyllideb flynyddol ac ar bolisïau cyffredinol y Cyngor. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am weithredu'r polisïau y cytunir arnynt gan y Cyngor, ac am wneud penderfyniadau gweithredol ar faterion nad ydynt yn gyfrifoldeb y Cyngor nac un o'i bwyllgorau. Caiff pob Aelod o'r Bwrdd Gweithredol wneud penderfyniadau ynghylch materion sy'n rhan o'u portffolio unigol. Caiff penderfyniadau gweithredol a rheoli eu dirprwyo gan y gwahanol gyrff hyn i swyddogion o dan Gynllun Dirprwyo.

6. Mae **Atodiad C** yn rhoi crynodeb o rôl Cynghorydd Sir ac mae **Atodiad D** yn rhoi crynodeb o rôl Cynghorydd Tref/Cymuned.

BETH YW CYFATHREBU DA?

7. Fel sail ar gyfer cysylltiadau gweithio da mae'n bwysig bod yr holl Gynghorwyr Cymuned a'r Cynghorydd Sir lleol yn deall ac yn parchu hyd a lled a chyfyngiadau ymarferol y rolau sydd ganddynt.

8. Mae cynghorwyr cymuned yn deall mai cyfrifoldeb y Cyngor Sir yw nifer o'r materion a ddaw ger eu bron. Er mwyn cynnal arferion da dylid cyfeirio'r holl geisiadau ac ymholiadau at y Cyngor Sir drwy'r Cynghorydd Sir. Os bydd etholwyr yn cysylltu â chynghorydd cymuned ynghylch mater sy'n ymwneud â'r Cyngor Sir, dylid dweud wrthynt am gysylltu â'r Cynghorydd Sir lleol yn uniongyrchol.

9. Bydd y Cynghorydd Sir lleol yn ceisio helpu â'r holl faterion a gyfeirir ato ef/hi a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cyngor cymuned a/neu i'r cynghorydd cymuned perthnasol am y cynnydd o ran yr ymholiad lle bo'n briodol.

10. Mae cynghorwyr cymuned yn sylweddoli bod llawer o swyddogaethau, prosesau, a phenderfyniadau heb fod o dan reolaeth uniongyrchol na dylanwad y Cynghorydd Sir lleol. Hefyd mae Cynghorwyr Cymuned yn deall nad yw'r Cynghorydd Sir lleol yn atebol yn unigol i'r Cyngor Cymuned nac i unrhyw gynghorydd cymuned unigol dros unrhyw faterion o'r fath.

11. Mae'r Cynghorydd Sir lleol yn deall nad yw'r Cyngor Cymuned na'i gynghorwyr yn atebol i'r Cynghorydd Sir lleol pan fo'r Cynghorydd Sir lleol wedi cyfeirio mater at y Cyngor Cymuned sydd o fewn cwmpas swyddogaethau'r Cyngor Cymuned.

PRESENOLDEB YNG NGHYFARFODYDD Y CYNGOR CYMUNED

12. Mae'r Cynghorwyr Cymuned yn deall nad yw'n ofynnol i'r Cynghorydd Sir lleol, fel rhan o'i rôl gyfansoddiadol, ddod i gyfarfodydd y Cyngor Cymuned. Fodd bynnag, mae'r Cynghorwyr Cymuned a'r Cynghorydd Sir lleol yn sylweddoli mai dod i gyfarfodydd y cyngor cymuned, yn rhinwedd bod y Cynghorydd Sir lleol yn gynrychiolydd y Cyngor Sir, yw'r ffordd orau o gynnal a datblygu cysylltiadau gwaith cadarnhaol.

13. Mae'r Cyngor Cymuned a'r Cynghorydd Sir lleol yn cytuno bod y trefniadau cyffredinol canlynol yn arferion da yng nghyfarfodydd y cyngor cymuned, yn amodol ar unrhyw gytundeb unigol i addasu neu ddiwygio'r trefniadau hyn:-

    1. Gellir gosod eitem ar yr agenda o'r enw "Adroddiad y Cynghorydd Sir", y byddai ei gwmpas yn galluogi'r Cynghorydd Sir lleol i annerch y cyfarfod ynghylch pynciau o'i ddewis ef/dewis hi.

    2. Fel dewis arall yn hytrach na gosod eitem ar yr agenda, byddai'r Cynghorydd Sir lleol yn cael cyfle i gyflwyno gwybodaeth am faterion yn

ymwneud â'r Cyngor Sir ac yn caniatáu i gynghorwyr cymuned ofyn cwestiynau.

3. Wrth anfon y wŷs at y Cynghorwyr Cymuned bydd y Clerc yn anfon gwahoddiad ysgrifenedig at y Cynghorydd Sir lleol (i'w gartref/chartref), ynghyd â chopi o'r Agenda ac unrhyw adroddiadau a phapurau cefndir ar gyfer y cyfarfod.

4. Cyn y cyfarfod bydd y Cynghorydd Sir lleol yn rhoi gwybod i'r Clerc a yw ef/hi yn bwriadu bod yn bresennol yn y cyfarfod.

5. Yn y cyfarfod rhaid i'r Cynghorydd Sir lleol ddatgan unrhyw fuddiant personol neu fuddiant rhagfarnol mewn perthynas ag eitem o fusnes, a hynny ar ddechrau'r cyfarfod.

6. Yn amodol ar bwynt 7 isod, rhaid i'r Cynghorydd Sir lleol adael y siambr os yw'n ystyried bod ganddo/ganddi fuddiant personol a rhagfarnol yn y mater dan sylw, a hynny cyn i'r drafodaeth ar y mater hwnnw gychwyn.

7. Lle bo'r Cynghorydd Sir lleol wedi cael gollyngiad gan Bwyllgor Safonau y Cyngor Sir, gall ef/hi weithredu'n unol ag amodau'r gollyngiad hwnnw.

8. Yn amodol ar bwynt 5 uchod, gall y Cynghorydd Sir lleol siarad mewn perthynas ag unrhyw fater sydd dan sylw yn y cyfarfod. Ni all y Cynghorydd Sir lleol bleidleisio mewn perthynas ag unrhyw fater, oni bai ei fod ef neu hi hefyd yn aelod o'r cyngor cymuned hwnnw.

9. Yn amodol ar bwynt 5 uchod, lle bo'r Cyngor Cymuned yn gwneud penderfyniad i orchymyn i'r cyhoedd a'r wasg adael y siambr mewn perthynas ag unrhyw fater, bydd hawl gan y Cynghorydd Sir lleol i aros yn y siambr drwy gydol yr adeg y rhoddir sylw i'r eitem.

10. Pan fo'r Cynghorydd Sir lleol yn aros yn siambr y Cyngor tra trafodir mater lle mae'r cyhoedd a'r wasg wedi cael gorchymyn i adael, rhaid i'r Cynghorydd Sir lleol gytuno i gadw cyfrinachedd o ran unrhyw drafodaethau o'r fath a chytuno i ddychwelyd unrhyw bapurau a ddosberthir ynghylch yr eitem honno i'r Clerc wedi i'r mater hwnnw gael ei drafod.

11. Mae'r Cynghorydd Sir lleol yn deall, pan fo'n bresennol yn y cyfarfod, ei fod ef/bod hi yn rhwym wrth y Côd Ymddygiad ar gyfer yr Aelodau, fel y'i mabwysiadwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin ar 5ed Mai 2008 ac fel y'i derbyniwyd gan yr aelod ar ôl iddo/iddi gael ei (h)ethol. Mae Cynghorwyr Cymuned yn deall eu bod yn rhwym wrth y Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan y Cyngor Cymuned pan fyddant yn bresennol yn unrhyw un o gyfarfodydd y Cyngor Cymuned.

LLOFNODWYD ar ran **UN LLAIS CYMRU**

Dyddiedig _____

LLOFNODWYD ar ran **CYNGOR**
SIR CAERFYRDDIN

Dyddiedig _____

Atodiad A: Swyddogaethau y gellir eu cyflawni gan Gynghorau Tref a Chynghorau Cymuned.

Rhandiroedd	Darparu a chynnal rhandiroedd i'w garddio
Y Celfyddydau	Datblygu a gwella'r wybodaeth sydd ar gael am y celfyddydau a'r crefftau sy'n perthyn iddynt
Baddondai	Darparu baddondai a golchdai
Mynwentydd	Darparu a chynnal claddfeydd, mynwentydd, amlosgfeydd, corffdai, ac ystafelloedd 'post-mortem'
Clociau	Darparu a chynnal clociau cyhoeddus
Tir Comin	Y grym i ddiogelu unrhyw dir comin sydd wedi'i gofrestru'n derfynol nad oes perchennog arno
Atal Troseddau	Gosod offer a llunio cynlluniau ar gyfer canfod ac atal troseddau (e.e. camerâu teledu cylch cyfyng; Gwarchod Cymdogaeth), a rhoi grantiau i awdurdod yr heddlu at y dibenion hyn
Adloniant	Darparu unrhyw ffurf ar adloniant cyhoeddus ac unrhyw safleoedd ar gyfer rhoi adloniant (yn cynnwys bandiau neu gerddorfeydd a darpariaeth ddawnsio)
Neuaddau	Darparu adeiladau ar gyfer digwyddiadau a chyfarfodydd cyhoeddus, chwaraeon dan do neu hamdden corfforol, neu at ddefnydd clybiau a chymdeithasau sydd ag amcanion hamdden, cymdeithasol neu athletaidd
Achosion Cyfreithiol	Y grym i erlyn ac i amddiffyn unrhyw achosion cyfreithiol er budd y trigolion. Y grym i gymryd rhan mewn unrhyw ymchwiliad cyhoeddus lleol
Goleuo	Darparu a chynnal unrhyw oleuadau troedffordd sy'n goleuo ffyrdd neu balmentydd ar yr amod nad yw'r colofnau'n uwch na'r uchderau penodedig.
Sbwriel	Darparu biniau sbwriel mewn strydoedd a chefnogi ymgyrchoedd gwrth-sbwriel
Mannau Agored	Darparu a chynnal mannau agored cyhoeddus, parciau pleser, a rhodfeydd cyhoeddus
Parcio	Darparu a rheoli meysydd parcio ceir a beiciau
Parciau	Darparu a chynnal parciau cyhoeddus a chyfleusterau priodol

Cynllunio	Yr hawl i gael gwybod am unrhyw gais cynllunio sy'n effeithio ar ardal y cyngor cymuned a thref ac i wneud sylwadau y mae'n rhaid i'r awdurdod cynllunio eu cymryd i ystyriaeth
Meysydd Chwarae	Darparu a chynnal tir ar gyfer unrhyw fath o weithgaredd hamdden awyr agored, gan gynnwys pyllau cychod
Pyllau	Y grym i ymdrin â llynnoedd, pyllau neu fannau eraill sy'n cynnwys budreddi neu sylwedd sy'n niweidiol i'r iechyd
Y Post a'r Ffôn	Y grym i warantu'r awdurdodau post neu ffôn rhag colled o ran unrhyw gyfleuster
Toiledau Cyhoeddus	Darparu a chynnal a chadw toiledau cyhoeddus
Hawliau Tramwy	Cynnal llwybrau ceffylau a llwybrau troed cyhoeddus
Ymylon Ffyrdd	Y grym i blannu a chynnal ymylon ffyrdd
Seddau	Darparu a chynnal seddau cyhoeddus ar y briffordd
Cysgodfannau	Darparu a chynnal cysgodfannau at ddefnydd y cyhoedd, yn enwedig y sawl sy'n teithio ar fws
Arwyddion	Y grym i godi arwyddion sy'n rhybuddio'r cyhoedd ynghylch peryglon neu sy'n cyhoeddi enw lle, neu sy'n nodi arhosfan bysiau
Nofio	Darparu pyllau nofio dan do neu yn yr awyr agored
Twristiaeth	Darparu cyfleusterau ar gyfer cynadleddau a hybu twristiaeth at ddibenion hamdden a busnes
Arafu Traffig	Cyfrannu tuag at gost gwaith arafu traffig a gyflawnir gan yr awdurdodau priffyrdd
Trafnidiaeth	Sefydlu cynlluniau rhannu ceir a theithio rhatach mewn tacsis; rhoi grantiau ar gyfer gwasanaethau bysiau cymunedol a gwasanaethau bysiau i'r henoed neu'r anabl; ymchwilio i'r ddarpariaeth a'r anghenion o ran trafnidiaeth gyhoeddus, ffyrdd a thraffig; darparu gwybodaeth am wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus
Maes y Pentref	Y grym i gynnal maes y pentref neu faes y dref

ATODIAD B

Y STRWYTHUR GWNEUD PENDERFYNIADAU GWLEIDYDDOL

Y CYNGOR

yn cyfarfod bob mis

- **Yn cytuno ar gyllideb**
- **Yn cytuno ar fframwaith polisi corfforaethol**
- **Yn penderfynu ar fframwaith rheoli gwleidyddol**
- **Yn penodi'r Arweinydd**
- **Yn penodi'r Prif Weithredwr**
- **Yn cyflawni'r holl swyddogaethau anweithredol dynodedig eraill**

Y BWRDD GWEITHREDOL
(10 o aelodau yn cynnwys yr Arweinydd a dau Ddirprwy Arweinydd)

- Yn cael ei benodi gan yr Arweinydd
- Mae portffolio thematig yn cael ei bennu ar gyfer pob Aelod o'r Bwrdd Gweithredol:
- Yr Amgylchedd, Adfywio, y Gwasanaethau Addysg a Phlant, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Tai a Diogelu'r Cyhoedd, Adnoddau, a Datblygu Trefniadaeth
- Yn cynnig polisi a chyllideb i'r Cyngor
- Yn gweithredu polisïau'r Cyngor o dan gyfarwyddyd gwleidyddol yr Arweinydd
- Yn gwneud penderfyniadau gweithredol wedi'u dirprwyo, yn unol â pholisi a chyllideb y Cyngor.

PWYLLGORAU CRAFFU (5)

- Un Pwyllgor Craffu – Polisi ac Adnoddau
- 4 Pwyllgor Craffu â themâu
- Craffu ar y weithrediaeth
- Cloriannu perfformiad a'r modd y rhoddir polisïau ar waith
- Craffu ar Gynlluniau Busnes
- Cynnal Adolygiadau Gwasanaeth ar y cyd â'r Bwrdd Gweithredol

1. PANELAU A PHWYLLGORAU'R CYNGOR

- **Apeliadau**
- **Penodiadau A a B**
- **Archwilio**
- **Y Gwasanaethau Democrataidd**
- **Panel Adolygu Tai**
- **Panel Buddsoddi**
- **Trwyddedu**
- **Pwyllgor Penodi'r Aelodau**
- **Cynllunio**
- **Safonau**

PANELAU YMGYNGHOROL

(Y Bwrdd Gweithredol yn eu sefydlu ac yn penderfynu ar eu haelodau)

yn cwrdd fel y bo'r gofyn yn unol â'r cyfarwyddyd

- Cloriannu Datblygiad Polisi a rhoi cyngor yn ei gylch naill ai drwy Banel Sefydlog neu Banelau Gorchwyl a Gorffen
- Yn cynnwys aelodau anweithredol a phartneriaid allanol fel y bo'n briodol

Yn cael eu cadeirio gan yr Aelod perthnasol o'r Bwrdd Gweithredol

GRWPIAU GORCHWYL A GORFFEN

Yn cael eu sefydlu gan Bwyllgorau Craffu unigol

yn cwrdd fel y bo'r gofyn yn unol â'r cyfarwyddyd

- Cloriannu ac adolygu meysydd gwasanaeth penodol

ATODIAD C

RÔL CYNGHORYDD SIR

1. Mae Cynghorwyr Sir yn atebol i'r Cyngor Sir ac i etholwyr y ward yr etholwyd nhw iddi. Maent yn cynrychioli buddiannau eu ward a'u hetholwyr unigol. Weithiau byddant yn gweithredu fel eiriolwyr ar ran y Cyngor Sir yn y wardiau a'r cymunedau a wasanaethant. Maent yn cyfrannu at lywodraethu'r ardal yn dda ac yn mynd ati i annog cyfranogiad cymunedol a chymryd rhan gan ddinasyddion yn y gwaith gwneud penderfyniadau gan y Cyngor Sir a'i bartneriaethau.

2. Mae Cynghorwyr Sir yn gweithredu fel cyfrwng cyfathrebu â'r gymuned ynghylch strategaethau, polisïau, gwasanaethau a gweithdrefnau'r Cyngor Sir. Maent yn cynrychioli etholwyr unigol a sefydliadau lleol yn y Cyngor Sir ac yn gwneud gwaith achosion ar eu rhan, gan wasanaethu pawb yn deg. Maent yn cadw mewn cysylltiad ag Aelodau'r Bwrdd Gweithredol, aelodau eraill y cyngor, swyddogion y cyngor a sefydliadau partner i sicrhau bod anghenion y cymunedau lleol yn cael eu nodi, eu deall a'u cefnogi.

3. Mae'n rhaid i Gynghorwyr Sir hyrwyddo goddefgarwch a chydlyniad yn eu cymunedau lleol. Byddant yn rhoi gwybod i'r Aelod priodol o'r Bwrdd Gweithredol am berfformiad gwasanaeth neu faterion polisi sy'n cael eu codi yng nghyfarfodydd y Rhwydweithiau Cymunedol. Mae'n ofynnol iddynt gynnal y safonau uchaf o ran ymddygiad a moeseg. Maent yn cymryd rhan yng ngwaith llywodraethu a rheoli'r Cyngor Sir drwy gyfrannu at y broses gwneud penderfyniadau yng nghyfarfodydd y Cyngor Sir a'i bwyllgorau.

4. Cynghorwyr Sir sydd ar y cyd yn gyfrifol yn y pen draw am lunio polisïau ar gyfer y Cyngor Sir a chyflawni nifer o swyddogaethau rheoli strategol a chorfforaethol, gan gynnwys goruchwylio perfformiad. Mae'n rhaid iddynt gadw at egwyddorion democratiaeth a chyfrifoldeb ar y cyd wrth wneud penderfyniadau ac mae ganddynt rôl yn hyrwyddo gwasanaethau'r cyngor a gwasanaethau cyhoeddus eraill ac yn sicrhau eu bod yn effeithlon ac yn effeithiol.

5. Bydd Cynghorwyr Sir yn cynrychioli'r Cyngor Sir ac yn gweithredu fel eiriolwyr iddo ar gyrff allanol, gyda'r nod o hyrwyddo buddiannau cyffredin a chydweithrediad er budd pawb. Byddant yn cynrychioli'r Cyngor ac yn eiriolwyr iddo ar gyrff allanol lleol. Maent yn hyrwyddo ac yn cefnogi llywodraethu da ar y Cyngor Sir a'i waith. Maent yn rhoi arweiniad cymunedol ac yn hyrwyddo dinasyddiaeth weithredol.

ATODIAD D

RÔL CYNGHORYDD TREF/CYMUNED

1. Mae Cynghorwyr Tref/Cymuned yn atebol i'w Cyngor Tref/Cymuned ac i etholwyr y ward neu'r gymuned yr etholwyd nhw iddi. Maent yn cynrychioli buddiannau eu ward neu gymuned a'u hetholwyr unigol. Weithiau byddant yn gweithredu fel eiriolwyr ar ran y Cyngor Tref/Cymuned yn eu wardiau neu yn y cymunedau a wasanaethant. Maent yn cyfrannu at lywodraethu'r ardal yn dda ac yn mynd ati i annog cyfranogiad cymunedol a chymryd rhan gan ddinasyddion yn y gwaith gwneud penderfyniadau gan y Cyngor Tref/Cymuned a'i bartneriaethau.

2. Mae Cynghorwyr Tref/Cymuned yn gweithredu fel cyfrwng cyfathrebu â'r gymuned ynghylch strategaethau, polisïau, gwasanaethau a gweithdrefnau'r Cyngor Tref/Cymuned. Maent yn cynrychioli etholwyr unigol a sefydliadau lleol yn y Cyngor Tref/Cymuned ac yn gwneud gwaith achosion ar eu rhan, gan wasanaethu pawb yn deg. Maent yn cydgysylltu ag aelodau eraill o'r cyngor, a chyda'u Clerc ac unrhyw swyddogion eraill o'r cyngor a chyda sefydliadau partner er mwyn sicrhau bod anghenion cymunedau lleol yn cael eu nodi, eu deall, a'u cefnogi.

3. Mae'n rhaid i Gynghorwyr Tref/Cymuned hyrwyddo goddefgarwch a chydlyniad yn eu cymunedau lleol. Byddant yn rhoi gwybod i'r Clerc am berfformiad gwasanaeth neu faterion polisi sy'n codi o bryd i'w gilydd. Mae'n ofynnol iddynt gynnal y safonau uchaf o ran ymddygiad a moeseg. Maent yn cymryd rhan yng ngwaith llywodraethu a rheoli'r Cyngor Tref/Cymuned drwy gyfrannu at y broses gwneud penderfyniadau yng nghyfarfodydd y Cyngor Tref/Cymuned a'i bwyllgorau.

4. Cynghorwyr Tref/Cymuned sydd ar y cyd yn gyfrifol yn y pen draw am lunio polisïau ar gyfer y Cyngor Tref/Cymuned a chyflawni nifer o swyddogaethau rheoli strategol a chorfforaethol, gan gynnwys goruchwylio perfformiad. Mae'n rhaid iddynt gadw at egwyddorion democratiaeth a chyfrifoldeb ar y cyd wrth wneud penderfyniadau ac mae ganddynt rôl yn hyrwyddo gwasanaethau'r cyngor a gwasanaethau cyhoeddus eraill ac yn sicrhau eu bod yn effeithlon ac yn effeithiol.

5. Gall Cynghorwyr Tref/Cymuned gynrychioli'r Cyngor Tref/Cymuned a gweithredu fel eiriolwyr iddo ar gyrff allanol, gyda'r nod o hyrwyddo buddiannau cyffredin a chydweithrediad er budd pawb. Gallant gynrychioli'r Cyngor a bod yn eiriolwyr iddo ar gyrff allanol lleol. Maent yn hyrwyddo ac yn cefnogi llywodraethu da ar y Cyngor Tref/Cymuned a'i waith. Maent yn rhoi arweiniad cymunedol ac yn hyrwyddo dinasyddiaeth weithredol.

- Strwythur Trefniadol Cynghorau Tref a Chymuned Un Llais Cymru **Atodiad E**